# PANEL CANIATÂD ARBENNIG (Y PWYLLGOR SAFONAU)

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr Brace Griffiths (Cadeirydd)<br>Mr John Robert Jones<br><br>**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GP)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Keith Roberts |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod y Panel Caniatâd Arbennig.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas ddatgan diddordeb personol yn Eitem 2 ar yr agenda am ei fod yn Gynghorydd Sir ar gyfer Ward Cybi, sy'n eistedd y tu mewn i dalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi.

Bu i'r Cynghorydd Keith Roberts (un o'r ymgeiswyr ar gyfer caniatâd arbennig) ddatgan diddordeb personol yn Eitem 2 ar yr agenda, am ei fod yn Gynghorydd Sir ar gyfer Ward Cybi, ac yn Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

### 2 CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GP) fod dau gais am ganiatâd arbennig wedi'u derbyn gan y Cynghorydd Jeff Evans a'r Cynghorydd Keith Roberts, mewn perthynas â'u ddiddordeb yn y cynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi, gyda'r ddau yn Lywodraethwyr wedi'u penodi gan y Cyngor Sir.

Cyfeiriwyd at y Cod Ymddygiad (Atodiad 1 yr adroddiad), sy'n nodi'r amodau hynny ble mae'n rhaid i Gynghorwyr Sir wneud cais am ganiatâd arbennig ar gyfer diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod yr ymgeiswyr yn yr adroddiad yn ceisio cael caniatâd arbennig ar gyfer tryloywder a gonestrwydd, er

mwyn rhoi caniatâd iddynt gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth a phroses gwneud penderfyniad yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 15 Hydref 2025, lle bydd y materion yn cael eu hystyried. Nodwyd fod y Cynghorydd Jeff Evans yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Cafodd y Cynghorydd Roberts gyfle i siarad gyda'r Panel a rhoi ei resymau am geisio caniatâd arbennig.

Ar ôl clywed am gefndir y ceisiadau am ganiatâd arbennig gan yr ymgeiswyr, cafodd y Panel sesiwn breifat i bennu a ddylid rhoi caniatâd arbennig ai peidio, ac os rhoddir caniatâd arbennig, i ystyried (i) ar ba sail(seiliau) y dyfernir y caniatâd arbennig ac (ii) oes unrhyw gyfyngiadau i'w cyflwyno.

**PENDERFYNWYD dyfarnu caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Jeff Evans a'r Cynghorydd Keith Roberts, yn eu rhinwedd fel Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Caergybi mewn perthynas â'r rhesymau hynny y cyfeiriwyd atynt yn y ceisiadau.**

**Mae'r caniatâd arbennig yn rhoi hawl i'r Cynghorwyr: -**

- **ysgrifennu at swyddogion a/neu'r Pwyllgor/Cyngor am y mater;**
- **siarad â swyddogion y Cyngor am y mater heb amodau;**
- **siarad yn nghyfarfodydd y Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;**
- **aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais am y mater;**
- **pleidleisio; a**
- **chymryd rhan mewn cyfarfodydd allanol a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol fel aelod o'r Cyngor.**

**Gweithred:**

- **Bod y Cynghorydd Evans a'r Cynghorydd Roberts yn datgan diddordeb personol wrth fynychu cyfarfodydd y Cyngor a'r holl gyfarfodydd eraill.**
- **Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Cynghorydd Jeff Evans a'r Cynghorydd Keith Roberts yn cadarnhau bod y Panel Caniatâd Arbennig wedi dyfarnu caniatâd arbennig iddynt sy'n eu galluogi i ysgrifennu, siarad am a phleidleisio ar yr holl faterion yn ymwneud â'r mater hwn.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2:30 pm

**MR BRACE GRIFFITHS**
**CADEIRYDD**